

Ysgol Bro Alun  
Rhodfa Delamere  
Gwersyllt  
Wrexham  
LL11 4NG  
Ffôn: 01978 269580  
Ffacs: 01978 269589



Ysgol Bro Alun  
Delamere Avenue  
Gwersyllt  
Wrexham  
LL11 4NG  
Tel: 01978 269580  
Fax: 01978 269589

---

## YSGOL BRO ALUN

---

Mr Osian Jones BA  
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: [mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk)

Chwefror 18fed 2019

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Ar Fawrth 4ydd, bydd newidiadau yn digwydd efo clybiau brechwast yn ysgolion Wrexham, gan gynnwys Bro Alun. Mae manylion i'w cael ar y llythyr atodedig gan Simon Roberts o CBSW, sy'n cynnwys gwybodaeth faterion perthnasol megis sut i dalu, plant sydd ar ginio am ddim ayyb. Mae yna hefyd daflen sy'n rhoi cyfarwyddiadau ar sut i dalu ar lein. Isod, mae cadarnhad o amseroedd newydd y clwb ym Mro Alun. Bydd yna gloc digidol 'radio controlled' wrth y drws a dyma'r cloc fydd yn cael ei ddefnyddio benderfynu ar yr amser pan mae'r elfen am ddim yn cychwyn.

**Nodwch os gwelwch yn dda os ydech yn talu ar-lein, fod rhaid gwneud y taliad erbyn bob prynhawn dydd Iau ar gyfer yr wythnos ddilynol. Os am dalu ar-lein ar gyfer w/d Mawrth 4ydd, bydd rhaid gwneud hynny erbyn prynhawn Iau, Chwefror 21ain (oherwydd hanner tymor). Gall taliadau arian parod gael eu gwneud ar y diwrnod mae'r plentyn yn mynychu'r clwb.**

Bydd y newidiadau yn newydd i bawb ar Fawrth y 4ydd a gofynwn i chi fod yn amyneddgar tra ein bod yn dod i arfer efo nhw. Os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau yn dilyn y dyddiau cyntaf, yna byddwn yn gadael i chi wybod.

<b>Clwb yn agor:</b>	<b>8:00am</b>
<b>Cyfnod talu £1:</b>	<b>8:00am - 8:20am</b>
<b>Cyfnod am ddim:</b>	<b>8:20am - 8:40am</b>
<b>Gorffen gweini brechwast a'r clwb yn cau:</b>	<b>8:40am</b>

Os oes ganddoch unrhyw gwestiwn, mae croeso i chi gysylltu efo'r ysgol.

Diolch yn fawr,

Osian Jones